# Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant / Oedolion

**Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion**

**Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg**
**Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig**

**Parthed: Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg 03/2022 – Oedolyn W**

## Amlinelliad bras o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr Adolygiad

*I'w cynnwys yma:*

- *Y cyd-destun cyfreithiol yn y canllawiau sy'n berthnasol i'r adolygiad yma*
- *Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr adolygiad*
- *Y cyfnod amser a gafodd ei adolygu a pham*
- *Llinell amser sy'n crynhoi'r digwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu mewn atodiad*

Mae Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig wedi'i gynnal yn unol â chanllawiau "Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 3", Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r canllawiau'n nodi y bydd Adolygiad Estynedig yn cael ei gomisiynu gan y Bwrdd Diogelu mewn achos lle mae oedolyn sy'n wynebu risg sydd, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, wedi bod yn destun penderfyniad gan yr Awdurdod Lleol i gymryd camau i'w ddiogelu rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn dilyn ymholiad gan Awdurdod Lleol, ac sydd:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf y byddai modd iddo beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd.

**Cod allweddol:**

| | |
|---|---|
| W | Y person sy'n destun yr adolygiad |
| X | Mab Oedolyn W |

Oherwydd natur y digwyddiad, cafodd ei gytuno yng nghyfarfod Grŵp Adolygu Ymarfer Aml-asiantaeth Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg bod y meini prawf wedi eu bodloni ar gyfer cynnal yr Adolygiad Estynedig. Mae'r amgylchiadau fel a ganlyn.

**Cefndir**

Roedd Oedolyn W yn 96 oed, ac roedd hi'n byw yn ei chartref ei hun gyda'i mab 70 oed, Oedolyn X, sef ei phrif gynhaliwr (ofalwr).

Cyn mis Awst 2020 nid oedd Oedolyn W ac Oedolyn X yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol ac ni fu unrhyw gysylltiad blaenorol â nhw. Nid oedd unrhyw deulu yn gysylltiedig, a chodwyd pryderon am eu lles i'r gwasanaethau cymdeithasol gan gymdogion a'r gweinidog lleol. Cyn i Oedolyn W gael ei neilltuo i weithiwr cymdeithasol yn y garfan Gofal a Chymorth hirdymor ym mis Mehefin 2021, roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod mewn cyswllt nifer o weithiau ac wedi cynnal ymweliadau. Trafodwyd a chynigiwyd cymorth i Oedolyn W ac Oedolyn X yn ystod y cysylltiadau hyn, ond gwrthodwyd y cyfan. Roedd Oedolyn X yn bersonol yn ei chael yn anodd ymgysylltu â gwasanaethau ac roedd Oedolyn W yn glir iawn ei bod hi'n gwrthod unrhyw gymorth.

21/4/22 – fe wnaeth siop leol a oedd yn dosbarthu siopa bwyd wythnosol i Oedolyn W ac Oedolyn X gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu gyda phryderon am Oedolyn X sydd fel arfer yn ffonio ar ddydd Iau i archebu bwyd. Serch hynny, nid oedd Oedolyn X wedi ffonio, derbyniwyd y bwyd diwethaf ar 14/4/22 ac ni fu unrhyw gysylltiad wedi hynny. Eglurodd y galwr ei fod wedi cael gwybod bod post yn dal yn y drws a bod y llenni ar gau a'i fod yn bryderus am ddiogelwch y preswylwyr a oedd ill dau yn oedrannus. Dechreuodd yr heddlu gynnal ymholiadau.

21/4/22 – Cysylltodd gweithiwr cymdeithasol â'r heddlu yn gofyn am wiriad lles. Dywedwyd wrth y gweithiwr cymdeithasol y byddai angen iddo fynd i'r cyfeiriad yn y lle cyntaf a gwneud ymdrechion i wirio lles y preswylwyr. Yn ddiweddarach yn y dydd fe ffoniodd y gweithiwr cymdeithasol yr Heddlu i ddweud nad oedden nhw'n gallu cael ateb. Cawson nhw wybod bod hwn yn ddigwyddiad parhaus, a byddai'r Heddlu yn ceisio mynd i'r cyfeiriad y noson honno. Pan aeth Swyddogion yr Heddlu i'r cyfeiriad, nid oedd post ar ôl yn y drws ac roedd y llenni ar agor. Dywedodd cymdogion eu bod nhw wedi gweld Oedolyn X y diwrnod hwnnw a bod swyddogion yr heddlu wedi ymweld â'r cyfeiriad ychydig o weithiau dros yr wythnosau diwethaf ac nid oedd Oedolyn X yn ateb y drws. Nid oedd unrhyw sail ar gyfer mynediad gorfodol bryd hynny ac roedd swyddogion yn bwriadu ymweld â'r cyfeiriad yn ddiweddarach er mwyn parhau â'u hymgais i gael ateb yn y cyfeiriad. Yn y diwedd, cysylltodd yr heddlu ag Oedolyn X dros y ffôn, a dywedodd eu bod nhw'n ddiogel ac yn iach ac nad oedd wedi ateb y drws oherwydd ei fod yn cael trafferth cysgu. Gofynnodd Oedolyn X am ragor o gymorth i ofalu am ei fam a chydsyniodd i Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd (PPN) gael ei gyflwyno.

22/4/22 – Cafwyd ymweliad dirybudd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn derbyn Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd gan yr Heddlu, gan na welwyd Oedolyn W. Gwrthododd Oedolyn X fynediad i ddechrau gan ddweud ei fod wedi disgyn i lawr y grisiau ar 18/4/22. Dyfalbarhaodd y gweithiwr cymdeithasol a chael mynediad.

Roedd Oedolyn W yn ymddangos yn sâl yn gorfforol; roedd hi'n ymwybodol ond yn anymatebol. Cysylltodd y gweithiwr cymdeithasol â’r meddyg teulu a chynghorwyd ef i ffonio 999 am ambiwlans.

22/4/22 – Aeth staff ambiwlans i gyfeiriad Oedolyn W a chadarnhau eu bod yn amau / bod ganddyn nhw ddiagnosis gweithredol bod gan Oedolyn W sepsis a bod diffyg galluedd meddyliol ganddi a bod angen iddi fynd i'r ysbyty. Roedd Oedolyn W wedi drysu, barnwyd nad oedd ganddi alluedd meddyliol, er ei bod yn bendant iawn ynghylch peidio â mynd i'r ysbyty. Dywedodd ei mab, Oedolyn X, wrth staff ambiwlans nad oedd ei fam yn mynd i'r ysbyty. Dywedodd staff ambiwlans wrth Oedolyn X pe na bai ei fam yn mynd i'r ysbyty yna byddai perygl iddi farw. Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol nad oedd gan Oedolyn X atwrneiaeth arhosol ar gyfer Iechyd a Lles ac felly nid oedd ganddo awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar ran ei fam. Mynegodd staff ambiwlans amharodrwydd i gludo Oedolyn W i’r ysbyty pan ddywedwyd ei bod wedi mynegi'n flaenorol nad oedd am fynd i’r ysbyty ond dywedodd y staff ambiwlans eu bod yn dymuno mynd â hi i’r ysbyty. Cysylltodd y staff ambiwlans â’r meddyg teulu i archwilio opsiynau amgen i dderbyniad i’r ysbyty, ysgrifennodd y meddyg teulu bresgripsiwn am wrthfiotigau ar gyfer haint ar y frest (heb weld Oedolyn W) dros y ffôn a dywedodd y byddai’n ceisio ymweld, ond byddai’n gofyn i nyrsys ardal ymweld dros y penwythnos. Ffoniodd staff ambiwlans y Gwasanaethau i Oedolion a gofnododd yn y nodiadau bod Oedolyn W *wedi ei gynghori* o'r angen i'w fam fynd i'r ysbyty ond gwrthododd. Roedd Oedolyn W yn ymddangos ei bod wedi drysu ac nad oedd wedi bod yn bwyta nac yn yfed. Roedd staff ambiwlans wedi trosglwyddo'r gofal i feddyg teulu a oedd i geisio rheoli'r sefyllfa dros y penwythnos.

23/4/22 a 24/4/22 – Postiodd nyrsys ardal feddyginiaethau drwy'r drws a cheisio ymweld drwy gnocio ar y drysau a'r ffenestri a thrwy ffonio ond ni chafwyd ateb.

26/4/22 – Ymwelodd y gweithiwr cymdeithasol ag Oedolyn W ac Oedolyn X yn eu cyfeiriad ond ni chafodd fynediad. Cyflwynwyd atgyfeiriad oedolyn mewn perygl i Garfan Ddiogelu’r awdurdod lleol gan y gweithiwr cymdeithasol a threfnwyd cyfarfod strategaeth ar gyfer 27/4/2022.

26/4/22 – Derbyniodd nyrsys ardal alwad ffôn gan Garfan Ddiogelu’r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn iddyn nhw ymweld â'r cyfeiriad oherwydd anghenion iechyd. Esboniodd y nyrsys ardal eu bod nhw wedi gwneud ymdrechion blaenorol i gysylltu ag Oedolyn W ac Oedolyn X i gyflenwi cynhyrchion anymataliaeth, matres lleddfu pwysau ac ati ond bod Oedolyn X wedi gwrthod yr eitemau yma, er bod Oedolyn W yn fwy na pharod i nyrsys ardal ymweld â hi a’i monitro.

27/04/22 – Cafodd cyfarfod strategaeth aml-asiantaeth ei gynnal ond cafodd ei ohirio hanner ffordd drwodd, ar ôl i bryderon gael eu codi ynghylch diogelwch Oedolyn W ac Oedolyn X, er mwyn i wiriad lles gael ei gynnal ar unwaith. Cyfarfu Nyrsys Ardal a Swyddogion Heddlu y tu allan i'r cyfeiriad. Roedd Nyrsys Ardal wedi bod yn y cyfeiriad yn gynharach yn y bore yn ceisio cael ymateb gan y preswylwyr heb lwyddiant, felly defnyddiodd yr Heddlu rym i sicrhau mynediad i'r eiddo.

Darganfuwyd Oedolyn W wedi marw yn y gwely, yn gorwedd ar flancedi budr ar ei hochr chwith ac yn gwisgo dillad budr, sgert, top, cardigan a gyda blanced drosti. Roedd y gwely yn orlawn o wrin, ac roedd hi wedi bod yn farw ers peth amser gan fod effeithiau rigor mortis yn amlwg.

27/4/22 – Dywedodd y nyrsys ardal eu bod ar ddeall nad oedd dŵr poeth na gwres canolog wedi bod yn y tŷ am y 6 mis diwethaf a bod Oedolyn X wedi gwrthod cynigion o gymorth gan y nyrsys ardal i ddod â chynfasau gwely a dillad glân i mewn.

Roedd Oedolyn X yn ei ystafell wely a disgrifiwyd ei fod wedi drysu ac yn ddryslyd a dywedodd ei fod wedi cwympo i lawr y grisiau yn ddiweddar. Dywedodd ei fod wedi gwirio ar Oedolyn W y diwrnod cynt ac 'roedd hi'n iawn'.

Cludwyd Oedolyn X i'r ysbyty, roedd yn sâl iawn. Dywedodd wrth weithwyr proffesiynol nad oedd eisiau byw mwyach gan fod ei fam wedi marw.

**Ymgysylltu ag eraill:-**

Nid oedd Oedolyn X yn dymuno cymryd rhan yn yr adolygiad yma oherwydd ei amgylchiadau iechyd ei hun.

Serch hynny, bu ymgysylltu â'r siop leol a oedd yn dosbarthu bwyd i Oedolyn W ac Oedolyn X a'r gweinidog a wnaeth atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol y flwyddyn flaenorol ac a oedd wedi bod yn rhoi cymorth i Oedolyn W ac Oedolyn X yn ystod rhan gynnar Pandemig Covid.

Cynhaliwyd dwy sesiwn ddysgu aml-asiantaeth ar gyfer yr adolygiad yma. Roedd y sesiwn ddysgu gyntaf gydag ymarferwyr a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol ag Oedolyn W ac Oedolyn X. Roedd yr ail sesiwn gydag uwch reolwyr a oedd â throsolwg o'r achos.

Cynhaliwyd yr adolygiad ar gyfer y cyfnod o fis Mehefin 2021 hyd at ddyddiad y farwolaeth ym mis Ebrill 2022. Roedd yr amserlen yma'n cynnwys dau gyfnod o ymgysylltiad gwaith cymdeithasol gan y Garfan Gofal a Chymorth (Mehefin 2021 tan Dachwedd 2021 ac Ionawr 2022 hyd at adeg marwolaeth Oedolyn W).

## Dysgu mewn perthynas ag ymarfer a dysgu sefydliadol

*Nodwch bob pwynt dysgu sy'n codi yn yr achos yma (gan amlygu ymarfer effeithiol) ynghyd ag amlinelliad byr o'r amgylchiadau perthnasol*

Cynhaliwyd y Sesiwn Ddysgu gyntaf ar 27/2/2023. Cynhaliwyd y Sesiwn Ddysgu yma wyneb yn wyneb, gydag amrywiaeth o gynrychiolwyr o asiantaethau a oedd yn ymwneud ag Oedolyn W ac Oedolyn X. Cynhaliwyd yr ail sesiwn ar 28/2/2023 drwy

gyfarfod rhithwir ar TEAMS gyda rheolwyr. Cafodd llinell amser ei rhannu ag ymarferwyr o ddigwyddiadau arwyddocaol yn ymwneud ag Oedolyn W. Cafodd yr ymarferwyr gyfle i nodi meysydd ymarfer effeithiol a meysydd i'w gwella. Roedd cyfyngiadau o ran nodi meysydd dysgu gydag un asiantaeth, sef y Practis Meddyg Teulu oherwydd nad oedd yn gallu anfon cynrychiolydd i'r sesiwn ond cynhaliwyd trafodaeth rhwng y meddyg teulu a'r adolygwyr trwy gyfarfod TEAMS.

**Gweithiwr Cymdeithasol – Ymarfer Effeithiol:-**

Er bod yr achos wedi'i drosglwyddo rhwng gwahanol garfanau gwaith cymdeithasol, carfan tymor byr a charfan tymor hwy, roedd cysondeb o ran gweithwyr cymdeithasol a thystiolaeth o drosglwyddo gwybodaeth yn dda rhwng gweithwyr cymdeithasol a charfanau. Roedd y dull a ddefnyddiwyd gan y gweithwyr cymdeithasol gydag Oedolyn X ac Oedolyn W yn gyson wrth geisio datblygu perthynas â nhw wedi adeiladu ar ymddiriedaeth a hyder. Nododd y gweithiwr cymdeithasol fod siopa groser yn broblem a daeth o hyd i ffyrdd arloesol o drefnu bod bwyd yn cael ei ddosbarthu ac i dalu amdano drwy siop groser leol. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn bendant a chafodd fynediad sawl gwaith i wirio lles Oedolyn W, er bod Oedolyn X yn aml yn amharod i ganiatáu mynediad.

Aeth y gweithiwr cymdeithasol y 'filltir ychwanegol', gan wneud nifer o alwadau diwahoddiad, gyrru heibio, galwadau ffôn i'r cartref a monitro'r cyflenwadau bwyd trwy gyswllt rheolaidd â'r siop leol. Hefyd bu'n gwirio arwyddion o symudiad yn yr eiddo a chysylltu â'r cymdogion. Mae'n amlwg roedd gan y gweithiwr cymdeithasol bryderon ynghylch yr achos yma a'i fod wedi uwchgyfeirio'r achos at ei reolwr llinell a diogelu a cheisio cynnwys asiantaethau eraill wrth reoli'r achos.

Cynigiwyd Asesiad Cynhaliwr i Oedolyn X ar 3 achlysur rhwng Awst a Hydref 2020 ond gwrthododd bob tro. Cynigiwyd a derbyniodd atgyfeiriad i'r Garfan Synhwyraidd ym mis Hydref 2020. Serch hynny, pan geisiwyd trefnu a chwblhau ymweliad asesu roedd y rhain yn aflwyddiannus.

**Pwyntiau Dysgu:-**

Roedd nifer o gyfnodau pan na ddatblygodd yr achos fel y gellid disgwyl, e.e., roedd cyfnod o naw wythnos cyn neilltuo gweithiwr cymdeithasol i'r achos, ar ôl i'r achos gael ei gau yn ddiweddar gyda chytundeb y gweithiwr cymdeithasol a'r rheolwr gwaith cymdeithasol. Serch hynny, cododd cymydog pryderus bryderon ychwanegol a oedd angen atgyfeiriad newydd.

Ar adeg yr atgyfeiriad yma roedd y Carfanau Gofal a Chymorth wedi cael problemau capasiti ers peth amser ac roedd rhestrau aros ar waith. Roedd niferoedd sylweddol ar y rhestrau aros ac roedd canllawiau blaenoriaethu yn cael eu defnyddio. Mae'r rhestrau aros yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y rheolwyr carfan a'r flaenoriaeth yn cael ei newid os oes gwybodaeth newydd i awgrymu bod angen gwneud hyn. Gan nad oedd yr wybodaeth ar yr atgyfeiriad newydd yn sylweddol wahanol i'r sefyllfa cyn

cau'r achos ni fyddai'r achos yma wedi bod yn flaenoriaeth uchel i'w ddyrannu a byddai angen blaenoriaethu atgyfeiriadau eraill cyn yr achos yma.

Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn bwriadu ymweld o fewn pythefnos, roedd amserlen y digwyddiadau'n dangos bod hyn wedi llithro i bedair wythnos. Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw oruchwyliaeth o'r achos tra roedd y gweithiwr cymdeithasol ar wyliau. Roedd y gweithiwr cymdeithasol wedi cynllunio galwadau diwahoddiad ond oherwydd doedd dim modd cael mynediad, symudwyd hyn i'r wythnos ganlynol ac yna'r wythnos ganlynol. Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol yn y digwyddiad dysgu ei fod wedi tynnu sylw'r rheolwr llinell a'r garfan ddiogelu at ei bryderon ynghylch yr achos yma. Trafododd y gweithiwr cymdeithasol yr achos yma mewn cyfarfod goruchwylio ar 2/3/22. Nodwyd bod y gweithiwr cymdeithasol wedi cysylltu â'r Garfan Ddiogelu, bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r nyrsys ardal ac Oedolyn X i sicrhau bod Oedolyn W yn cael y cymorth angenrheidiol, ac nid oedd esgeulustod bwriadol gan Oedolyn X. Ni roddwyd ystyriaeth i uwchgyfeirio'r achos yma'n unol â'r Polisi Hunan-esgeuluso, a oedd wedi'i ddatblygu ond a oedd yn gymharol newydd ar y pryd.

Nodwyd pryderon drwy gydol cyfnod yr achos gan y gweithiwr cymdeithasol, gweithwyr cymorth yn y cartref, nyrsys ardal ac ati ynghylch galluedd meddyliol Oedolyn W i gydsynio i ofal a chymorth. Serch hynny, ni chynhaliwyd unrhyw asesiadau gallu ysgrifenedig ffurfiol gan unrhyw weithiwr proffesiynol neu asiantaeth. Roedd hyn yn hollbwysig yn yr achos yma oherwydd roedd Oedolyn W yn gwrthod gwasanaethau cymorth. Serch hynny, gofynnodd y gweithiwr cymdeithasol am asesiad awdioleg oherwydd ei fod yn pryderu bod gan Oedolyn W nam ar y clyw a allai fod wedi effeithio ar ei gallu i gymryd rhan mewn asesiad galluedd ffurfiol. Cafodd y ddau apwyntiad awdioleg eu canslo gan Oedolyn X gan nodi bod oedolyn W yn sâl. Ni chafodd apwyntiad dilynol ei drefnu gyda'r practis meddyg teulu ac ni chafodd y gweithiwr cymdeithasol wybod.

Yn dilyn atgyfeiriad cychwynnol gan y gweinidog ac atgyfeiriad yn cael ei gyflwyno i'r garfan ddiogelu, nodwyd bod Oedolyn W ac Oedolyn X yn hunan-esgeuluso. Mae hunan-esgeulustod yn wahanol i bryderon diogelu eraill a mathau eraill o esgeulustod gan nid oes unrhyw un yn cyflawni cam-driniaeth. Ar yr adeg yma, roedd polisi hunan-esgeuluso wedi'i ddatblygu a threfnwyd cyfres o sesiynau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth gan y Bwrdd Diogelu gan ddechrau ym mis Medi 2021. Serch hynny, roedd nifer o ymarferwyr yn y sesiwn ddysgu o bob asiantaeth ddim yn gwybod am y Polisi Hunan-esgeuluso ac nad oedden nhw wedi mynychu unrhyw un o'r sesiynau hyfforddi.

**Meddyg Teulu**

Roedd yn ymddangos bod diffyg ymwybyddiaeth ymhlith meddygfeydd teulu o ran lles eu cleifion ac adolygiadau amserol rheolaidd. Oedolyn X oedd prif gynhaliwr Oedolyn W ond roedd ganddo hefyd broblemau iechyd. Roedd ganddo broblem benodol gyda'i olwg ac nid oedd wedi mynychu ei apwyntiadau offthalmoleg. Roedd yn ymddangos nad oedd unrhyw apwyntiad dilynol gan y meddyg teulu o ystyried bod diagnosis blaenorol o ganser cam 4. Mae'n ymddangos nad oedd fawr o

ymwybyddiaeth bod gan Oedolyn X ei broblemau iechyd ei hun ac mai ef oedd prif gynhaliwr ei fam. Dylid bod wedi cynnig asesiad cynhaliwr.

Roedd hefyd yn ymddangos bod diffyg ymwybyddiaeth o fregusrwydd eu cleifion. Er bod tystiolaeth roedd nyrs pobl fregus wrthi'n chwilio am achosion nad oedd y meddyg teulu wedi'u gweld ers nifer o flynyddoedd. Roedd y system gollwng taflenni bresennol yn rhoi gormod o bwysau ar allu'r claf bregus i ymateb, ac efallai na fydd person bregus yn gallu gwneud hynny beth bynnag, e.e. oherwydd dementia neu afiechyd. Byddai hyn yn arwain at ddolen gaeedig i bob pwrpas.

Siaradodd yr adolygwyr â'r meddyg teulu, oherwydd ni allai'r meddyg teulu fynychu'r sesiwn ddysgu. Roedd y meddyg teulu o'r farn, trwy ofyn am ymweliad gan nyrsys ardal y penwythnos hwnnw drwy'r gwasanaeth negeseuon, ei fod yn cymryd yn ganiataol y byddai'r nyrsys ardal yn dehongli hyn fel achos brys ond nid oedd hyn yn wir. Nid oes gan nyrsys ardal sy'n gweithio gyda'r feddygfa yma fynediad at nodiadau cleifion ar y penwythnos, dim ond yn ystod oriau'r feddygfa. Mae yna ddatgysylltiad rhwng y gwasanaethau yma gan fod y gwasanaeth nyrsio ardal yn wasanaeth saith diwrnod yr wythnos a'r Feddygfa yn wasanaeth pum niwrnod yn unig. Mae'n ymddangos o drafodaethau yn y sesiwn ddysgu bod mynediad at nodiadau cleifion wedi'i wrthod y tu allan i oriau swyddfa oherwydd materion cyfrinachedd/GDPR.

**Nyrsys ardal**

1/3/2022 – Ceisiodd Nyrsys Ardal ymweld ag Oedolyn W, yn unol â chais y Meddyg Teulu ond gwrthododd Oedolyn X fynediad iddynt felly ni chynhaliwyd unrhyw wiriadau corfforol na chymryd gwaed. Cyfarfu'r heddlu â'r gweithiwr cymdeithasol a'r nyrsys ardal a chafwyd mynediad i'r eiddo drwy'r heddlu. Roedd y tŷ yn oer, yn llaith ond yn lân, cynhaliwyd archwiliad croen llawn, roedd y croen yn gyfan ond roedd y sodlau a'r glun yn goch. Roedd yn anodd cyfathrebu ag Oedolyn W oherwydd ei cholled clyw ond barnodd y nyrs ardal a'r gweithiwr cymdeithasol fod ganddi alluedd ar yr adeg yma ar gyfer ei hanghenion gofal a chymorth. Dywedodd nyrsys ardal nad oedd unrhyw bryderon iechyd ac felly rhyddhawyd Oedolyn W gan y nyrsys ardal o'u llwyth achosion ar 8/3/2022. Serch hynny, byddai risgiau wedi bod ar gyfer difrod pwysau a diffyg maeth. Eto mae yna nifer o gyfleoedd a gollwyd, e.e. chwilfrydedd proffesiynol, peidio â dilyn y broses drwy uwchgyfeirio neu adrodd bod Oedolyn W yn Oedolyn mewn Perygl.

Gwnaeth nyrsys ardal eu gorau i gael mynediad i Oedolyn W dros benwythnos 23/4/2022 a 24/4/2022 ond gwrthodwyd mynediad i'r nyrsys gan Oedolion X. Nid oes gan nyrsys ardal fynediad at gofnodion y practis yma ar y penwythnos. Felly ni allai nyrsys ardal weld manylion y cais i ymweld ar ddydd Sadwrn, ac ni roddwyd gwybodaeth gywir iddyn nhw gan y practis meddyg teulu. O'r herwydd, nid oedd y nyrsys ardal yn gallu deall brys yr ymweliad y gofynnwyd amdano. Dywedodd y nyrsys ardal yn ystod y sesiwn ddysgu fod copïau papur o nodiadau yn dal i gael eu cadw a'u bod nhw wedi'u hysgrifennu â llaw. Mae nodiadau cleifion o dan y system bresennol yn cael eu hysgrifennu ddwywaith (unwaith yn nhŷ'r claf ac unwaith ar ôl dychwelyd i'r swyddfa) gan y nyrsys ardal.

**Staff ambiwlans**

Ar 22/4/2022 gwelwyd Oedolyn W gan staff ambiwlans. Roedd hi'n ymddangos yn sâl yn gorfforol, yn ymwybodol ond yn ddryslyd, doedd hi ddim wedi bwyta nac yfed ers 18/4/2022. Roedd ganddi sgôr NEWS o 9, nid oedd y parafeddygon yn gallu darbwyllo Oedolyn W i fynd i'r ysbyty. Gwrthododd Oedolyn X i Oedolyn W fynd i'r ysbyty.

Bryd hynny, roedd y staff ambiwlans a oedd yn bresennol a'r gweithiwr cymdeithasol yn cytuno nad oedd gan Oedolyn W y galluedd meddyliol i wneud penderfyniad ynghylch derbyniad i'r ysbyty. Tynnodd y gweithiwr cymdeithasol sylw at y ffaith nad oedd gan Oedolyn X Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer iechyd a lles Oedolyn W ac felly nid oedd ganddo'r awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar ei rhan.

Nid yw'r cofnodion ambiwlans yn cynnig dealltwriaeth lawn o'r asesiad capasiti a gynhaliwyd a sut y daethpwyd i'r penderfyniad ynghylch diffyg galluedd Oedolyn W. Siaradodd un o'r criw ambiwlans a oedd yn bresennol â'r meddyg teulu ond nid yw'r naill na'r llall wedi gwneud cofnodion o'r drafodaeth i benderfynu ar y camau nesaf yn dilyn y penderfyniad nad oedd gan Oedolyn W y galluedd i wrthod cael ei chludo mewn ambiwlans ar yr adeg berthnasol.

Dywedodd y meddyg teulu wrth y criw ambiwlans y byddai presgripsiwn o wrthfiotigau ar gyfer haint ar y frest yn cael ei drefnu ac y byddai'n ceisio trefnu galwad tŷ a/neu nyrsys ardal i ymweld. Heb gofnodion o'r drafodaeth rhwng staff ambiwlans a'r meddyg teulu mae'n anodd deall yr hyn a ystyriwyd i fod er budd gorau Oedolyn W a'r cynllun clinigol bryd hynny.

Serch hynny, nid oedd Oedolyn X yn iach chwaith ond ni chwestiynwyd gallu Oedolyn X i ofalu am ei fam, Oedolyn W, bryd hynny. Hefyd roedd Oedolyn X yn ymddangos yn fwy pryderus am ddymuniadau ei fam na'i hanghenion iechyd.

**Yr Heddlu**

Ar 6/10/2021 anfonwyd e-bost cychwynnol at yr Heddlu gan y meddyg teulu yn sôn am Oedolyn W ac Oedolyn X ddim yn cael eu gweld ers peth amser naill ai gan y gweithiwr cymdeithasol neu'r meddyg teulu a oedd wedi ceisio ymweld ddwywaith heb unrhyw ymateb. Er bod y meddyg teulu wedi gofyn i'r Heddlu fod yn bresennol, ni chofnodwyd yr hanes y tu ôl i'r gofyniad na'i amgylchiadau. O'r herwydd, roedd penderfyniad yr Heddlu yn seiliedig ar yr wybodaeth oedd ar gael iddyn nhw'n unig.

Am 12:48 ar 27/4/2022 roedd nyrsys ardal wedi gofyn i'r Heddlu wneud galwad lles gan nad oedden nhw wedi gallu cael ateb yng nghartref Oedolyn X ac Oedolyn W. Serch hynny, ni esboniwyd yr hanes llawn, yr amgylchiadau na'r bygythiad i fywyd.

Am 13:00 yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, galwyd cyfarfod strategaeth aml-asiantaeth gan y garfan ddiogelu. Rhannwyd gwybodaeth ychwanegol yn ystod y cyfarfod yma. Gohiriwyd y cyfarfod ac uwchraddiwyd yr alwad ffôn yn ystod y cyfarfod strategaeth gan y swyddog heddlu a oedd yn bresennol, i alwad â blaenoriaeth. Am 15:08 anfonodd yr Heddlu swyddogion i'r eiddo. Cyrhaeddodd y swyddogion yr heddlu yr eiddo am 15:22 gyda nyrsys ardal. Gorfodwyd mynediad gan yr Heddlu a

chadarnhawyd bod Oedolyn W wedi marw gan barafeddyg a staff Ambiwlans a oedd yn bresennol. Roedd pryderon hefyd am iechyd Oedolyn X a gludwyd mewn ambiwlans i ysbyty cyffredinol dosbarth lleol.

**Diogelu**

Cyflwynwyd pedwar Adroddiad Diogelu ar wahân i'r garfan ddiogelu. Ar dri achlysur penderfynwyd nad oedd yr adroddiadau'n cyrraedd y trothwy i symud ymlaen drwy'r broses ddiogelu. Caewyd yr adroddiadau i'r broses ddiogelu drwy roi cyngor.

Ar y pedwerydd tro y cyflwynwyd adroddiad oedolyn mewn perygl, galwyd cyfarfod strategaeth. Serch hynny, gohiriwyd y cyfarfod ar ôl iddo ddechrau yn dilyn rhannu gwybodaeth nad oedd Oedolyn X nac Oedolyn W wedi'u gweld a doedd dim modd i'r nyrs ardal gael mynediad dros y penwythnos. Byddai wedi bod yn fuddiol yn yr achos yma gynnal cyfarfod aml-asiantaeth yn gynt i rannu gwybodaeth a chydlynu cynllun gweithredu.

**Pandemig Covid a Chymorth Cymunedol**

Digwyddodd cyfyngiadau symud cychwynnol y Pandemig Covid ym mis Mawrth 2020 a pharhaodd effaith Covid drwy gydol yr achos yma. Roedd Oedolyn W ac Oedolyn X wedi cyfyngu eu hunain yn eu cartref. Cydnabu Oedolyn X fod ganddo broblemau gydag ymddiriedaeth; nid oedd ganddo hyder ac nid oedd yn gadael y tŷ oherwydd Covid.

Roedd Oedolyn X yn amharod i adael gweithwyr proffesiynol i mewn. Dywedodd wrth y gweithiwr cymdeithasol nad oedd yn hoffi gormod o bobl yn ymweld ar unwaith. Cydnabu Oedolyn X fod angen help arno i siopa a gofynnodd y gweithiwr cymdeithasol i'r siop leol ddosbarthu cyflenwadau bwyd. Roedd Oedolyn X wedi dioddef problemau iechyd meddwl yn flaenorol. Roedd y rhain, o bosibl, wedi'u gwaethygu gan y pandemig.

Mae'n amlwg yn yr achos yma bod y siop leol, y gweinidog a'r gweithiwr cymdeithasol wedi mynd yr ail filltir i geisio cefnogi Oedolyn W ac Oedolyn X trwy'r pandemig Covid. Mae gweithwyr cymdeithasol yn gwneud gwaith yn eu cymunedau i ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol a datblygu perthnasoedd cefnogol a gweithio gyda phobl i ddod o hyd i atebion i'w problemau. Mae'r gofal lleol yma'n golygu bod rhagor o bobl yn cadw llygaid ar unigolion ac mae gofal wrth galon y gymuned.

## Gwella Systemau ac Ymarfer

*Er mwyn annog dysgu yn sgil yr achos yma, nododd yr Adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd Diogelu Oedolion a'i asiantaethau partner, a'r deilliannau gwella y mae'n gobeithio y byddan nhw'n eu cyflawni*:

**Argymhellion:-**

1. Gweithwyr proffesiynol i ddilyn hyfforddiant gloywi ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

a. O dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, mae'n nodi bod yn rhaid i ni dybio bod gan bobl alluedd, oni bai y profir yn wahanol. Serch hynny, yn achos Oedolyn W cwestiynwyd ei galluedd drwy gydol yr achos, gan wahanol weithwyr proffesiynol, ond ni chafodd unrhyw asesiadau galluedd ffurfiol eu dogfennu gan unrhyw un o'r gweithwyr proffesiynol neu'r asiantaethau dan sylw.

Felly mae angen cynnal hyfforddiant gloywi gyda'r holl asiantaethau a staff ynghylch yr angen i ddogfennu Asesiadau Galluedd Meddyliol yn ffurfiol drwy gydol achos lle mae amheuaeth a oes gan berson alluedd.

b. Canfu'r adolygiad fod Oedolyn X wedi gwneud penderfyniad ar ran Oedolyn W ac wedi gwrthod cynigion o les, triniaeth a derbyniad i'r ysbyty ar gyfer Oedolyn W er nad oedd ganddo Atwrneiaeth Arhosol dros ei hiechyd a'i lles.

Dylai gweithwyr proffesiynol herio a dogfennu os yw ffrind neu berthynas yn ceisio rhoi eu barn ynghylch a yw triniaeth er budd pennaf y person hwnnw. Dylai'r her yma gofnodi a oes gan yr unigolyn Atwrneiaeth Arhosol dros iechyd a lles.

c. Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) i gwblhau archwiliad o ddogfennau lle cofnodir bod cleifion heb alluedd i adolygu a yw asesiadau galluedd, penderfyniadau budd pennaf ac unrhyw drafodaethau gyda meddygon teulu, gweithwyr proffesiynol eraill neu aelodau o'r teulu wedi'u dogfennu'n llawn i sicrhau bod yr holl ystyriaethau, penderfyniadau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cael eu cofnodi'n gadarn.

d. Yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005, roedd y gweithwyr proffesiynol a oedd yn bresennol yn credu'n rhesymol nad oedd gan Oedolyn W y galluedd i wneud penderfyniad i dderbyn triniaeth i'r ysbyty. Nid oedd unrhyw gyfarwyddeb/penderfyniad ymlaen llaw ar waith ychwaith. Mae pwysigrwydd cydnabod dymuniadau a theimladau, credoau a gwerthoedd pobl yn y gorffennol a'r presennol a barn pobl eraill sy'n agos at y person yn bwysig iawn. Serch hynny, yn y sefyllfa yma nid oedd Oedolyn X yn iach ei hun, roedd wedi cwympo i lawr y grisiau.

Dylai Penderfyniad Budd Pennaf fod wedi'i ddogfennu yn cynnwys yr holl weithwyr proffesiynol eraill a oedd yn bresennol a'r meddyg teulu y siaradwyd ag ef dros y ffôn a nodi unrhyw her i benderfyniadau neu wahaniaethau barn. O'r herwydd, mae angen i asiantaethau ystyried hyfforddiant gloywi ar Ddeddf Galluedd Meddyliol,

2005 fel eu bod nhw'n glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau ar hyn o bryd o ran Penderfyniadau Budd Pennaf.

2. Dywedodd staff yn y sesiwn ddysgu eu bod nhw ddim yn gwybod am y Polisi Hunan-esgeuluso a ddatblygwyd gan y Bwrdd Diogelu na'r hyfforddiant ymwybyddiaeth. Mae ymchwil ac arweiniad i gefnogi gweithwyr proffesiynol wrth weithio gyda phobl sy'n hunan-esgeuluso yn amlygu pwysigrwydd datblygu perthnasoedd o ymddiriedaeth sy'n derbyn ymddygiadau'r person wrth weithio tuag at newid cadarnhaol.

   Felly mae angen i'r Bwrdd Diogelu ystyried hyfforddiant ymwybyddiaeth ychwanegol ar y Polisi Hunan-esgeuluso, y broses uwchgyfeirio a'r paneli hunan-esgeuluso a gynhelir.

3. Dylai rheolwyr gefnogi staff i gadw achosion yn agored lle mae risgiau sylweddol hyd yn oed os yw'r person yn amharod i ymgysylltu. Gwyddom fod dyfalbarhad a meithrin ymddiriedaeth dros amser yn hanfodol ar gyfer unrhyw lwyddiant wrth weithio gyda phobl sy'n ddrwgdybus o wasanaethau ac sy'n hunan-esgeuluso yn hytrach na derbyn cymorth. Mae hyn yn anodd, pan fo'r galw mor uchel ac mae cynifer o bobl yn gofyn am help.

4. Mae pob asiantaeth yn effro i'w safonau proffesiynol mewn perthynas â chofnodi gwybodaeth a chofnodi goruchwyliaeth. Dylid cofnodi'r holl wybodaeth yn unol â'r safonau a amlinellir gan ddeddfwriaeth y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a pholisïau a gweithdrefnau adrannol.

5. Meddygon Teulu i edrych y tu hwnt i'r anghenion iechyd uniongyrchol a chael agwedd gyfannol tuag at eu cleifion, lle mae tystiolaeth o fregusrwydd ac anghenion iechyd sydd heb eu diwallu.

   a. Dylai'r Practis Meddyg Teulu adolygu sut mae cleifion bregus yn cael eu hadnabod, eu hadolygu a'u monitro. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle nad ydyn nhw wedi ymgysylltu â gwasanaethau ers peth amser. Yn aml nid yw'r rhai sydd â'r angen mwyaf yn ceisio cymorth, felly bydd gwasanaethau optio i mewn yn eu colli.

   b. Gwasanaeth Nyrs ar gyfer Pobl Fregus – Mae'r system dosbarthu taflenni bresennol yn rhoi gormod o bwysau ar allu'r claf bregus i ymateb, ac efallai na fydd person bregus yn gallu gwneud hynny beth bynnag, e.e. oherwydd dementia neu afiechyd. Byddai hyn yn arwain at ddolen gaeedig i bob pwrpas. Pe na bai'r claf bregus yn ymateb byddai'r achos yn cael ei gau.

      Mae hwn yn gyfle a gollwyd ynghylch chwilfrydedd proffesiynol a deall pam ni ymgysylltwyd â'r claf cyn cau'r achos. Felly mae'r broses gyfredol yma angen ei hadolygu.

6. Wrth ddarparu gofal clinigol ni ddylai meddygon teulu ragnodi cyffuriau neu driniaeth, gan gynnwys presgripsiynau amlroddadwy, nes bod ganddyn nhw'r

wybodaeth ddigonol am iechyd y claf a'u bod nhw'n fodlon bod y cyffuriau neu'r driniaeth yn diwallu anghenion y claf.

Dylai Oedolyn W fod wedi cael archwiliad corfforol cyn iddi gael presgripsiwn am feddyginiaeth.

7. Mae angen i'r Practis Meddyg Teulu gael polisi ffurfiol lle mae pryderon ac atgyfeiriadau gan bob asiantaeth ynghylch claf yn cael eu cofnodi yng nghofnod y claf ac yn cael eu trin mewn modd amserol a phriodol.

a. Roedd diffyg cyfathrebu rhwng y meddyg teulu a'r nyrsys ardal. Mae'n ymddangos bod diffyg protocolau ar waith i uwchgyfeirio achosion brys, yn lle neges yn cael ei gadael ar beiriant ateb y nyrsys ardal.

b. Mae angen i'r Practis Meddyg Teulu (a nodir yn yr adolygiad yma) adolygu'r penderfyniad i'r gwasanaeth nyrsys ardal beidio cael mynediad at nodiadau cleifion 7 diwrnod yr wythnos a sut mae'n cyd-fynd ag egwyddorion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol o ran rhannu data er mwyn gwasanaethu aelodau'r cyhoedd sydd wedi'u cofrestru gyda'r feddygfa honno yn fwy effeithiol, yn enwedig gan fod meddygfeydd eraill yn yr un ardal ddaearyddol yn caniatáu hyn.

c. Mae angen dyfeisiau llaw ar y nyrsys ardal sy'n gallu cael eu defnyddio i gofnodi ac uwchlwytho gwybodaeth gyfredol. Yn y cyfamser, mae modd i ddyfeisiau gael eu llwytho i lawr i brif gofnod y claf ar ôl dychwelyd i'w swyddfa. Gan fod nyrsys ardal yn gorfod cofnodi gwybodaeth ddwywaith (unwaith yn nhŷ'r claf ac unwaith yn ôl yn y swyddfa) mae hwn yn defnyddio amser gwerthfawr y gellid ei dreulio gyda chleifion ac yn creu cofnodion sy'n gwrthdaro.

d. Pan ymwelodd y nyrsys ardal ar y penwythnos ar ôl i Oedolyn W gael gwrthfiotigau ar bresgripsiwn ar gais y Meddyg Teulu, ceisiwyd pob dull o gael mynediad, e.e. ymweliadau diwahoddiad, galwadau ffôn, curo ar y drws ffrynt a'r drws cefn, ffonio ffôn symudol Oedolyn X ac ati. Adroddwyd hyn yn ôl i'r feddygfa ar y dydd Llun. Gan nad oedd gan y nyrsys ardal fynediad at y nodiadau ac nad oedd y meddyg teulu wedi siarad yn uniongyrchol â'r nyrsys ardal ni ddeallwyd bod y cais i alw'n un brys.

Mae angen datblygu proses rhwng y practis meddyg teulu a'r nyrsys ardal i sicrhau bod llif dwy ffordd o wybodaeth a chodi pryderon i'r rhai sydd ar ddyletswydd.

8. Arweinwyr y Bwrdd Iechyd ar gyfer Meddygon Teulu a'r Gwasanaeth Ambiwlans i adolygu camau gweithredu eu gweithwyr proffesiynol perthnasol a'r staff sy'n ymwneud â'r achos yma.

Roedd yn ymddangos bod staff y Feddygfa a'r Ambiwlans yn cefnogi penderfyniad Oedolyn W, ond o ystyried sgôr NEWS o 9, y prognosis gwael a nodwyd a'r ffaith bod y meddyg teulu heb ymweld â'r cartref, mae'n ymddangos bod cyfle wedi'i golli i sefydlu cynllun i gefnogi marwolaeth Oedolyn W yn ei chartref gyda meddyginiaeth diwedd oes.

9. Mae'n amlwg nad oedd y gwaith o gadw cofnodion wedi'i gwblhau'n briodol gan y meddygon teulu na'r staff ambiwlans ac nad oedd yn darparu eglurder o ran gwneud penderfyniadau, ac roedd tybiaethau neu gredoau'n cael eu gadael heb her broffesiynol briodol glir i gadarnhau'r union gamau gweithredu y cytunwyd arnyn nhw a'r cynllun gofal ar gyfer y claf.

   Yn unol â'r canllawiau 'Ymarfer Meddygol Da' a 'Safonau Hyfedredd' Parafeddygon, mae'n rhaid i bob aelod o staff ddangos eu bod nhw'n gweithio yn unol â'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodir yn y canllawiau / polisi sefydliadol yma.

10. Pan fydd asiantaethau yn gofyn am wiriadau lles gan yr heddlu mae angen rhannu gwybodaeth gan amlygu'r risgiau a'r hyn sydd wedi newid o ran yr amgylchiadau. Mae adran 17(1)(e) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn rhoi’r pŵer i’r heddlu fynd i mewn i adeilad heb warant er mwyn **achub bywyd neu atal anaf** neu atal difrod difrifol i eiddo. Mae’n rhaid i’r heddlu gael mwy o wybodaeth na phryder cyffredinol am les rywun, er mwyn dangos tystiolaeth a defnyddio’r pŵer mynediad yma, na ellir ond ei ddefnyddio mewn achosion brys.

    Asiantaethau i werthfawrogi rolau a chyfrifoldebau ei gilydd a chyfyngiadau'r ddeddfwriaeth.

11. Ni ddylai Atgyfeiriadau Diogelu ynghylch unigolyn gael eu hystyried yn ddigwyddiadau unigol a digyswllt. Mewn achosion lle mae nifer o atgyfeiriadau gan yr un gweithiwr proffesiynol neu mae gweithwyr proffesiynol yn gwneud atgyfeiriadau sydd ar wahân ond sy'n gysylltiedig, dylid cynnal cyfarfod strategaeth i rannu safbwyntiau pob gweithiwr proffesiynol dan sylw.

    Os oes gan un asiantaeth bryderon ynghylch diogelu, dylid annog gweithwyr proffesiynol i rannu gwybodaeth â phartneriaid eraill er mwyn datblygu a chytuno ar gynlluniau gweithredu amlasiantaethol cydlynol.

12. Mae angen i'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol rannu'r gwaith da a'r ymarfer a nodwyd yn yr adolygiad yma fel astudiaeth achos i'w defnyddio mewn gweithdai hyfforddi a dysgu.

    Nododd yr achos yma gyfleoedd dysgu a rennir lle mae'r gymuned ac unigolion allweddol wedi bod yn ganolog i gefnogi asiantaethau i helpu i ddiogelu pobl sy'n byw yn y gymuned.

| Datganiad gan yr Adolygydd/Adolygwyr | | | |
|---|---|---|---|
| **ADOLYGYDD 1**<br><br>Terri Warrilow | | **ADOLYGYDD 2** ***(ble y bo'n addas)*** | Ann Orrells |
| **Datganiad o annibyniaeth o'r achos**<br>*Datganiad cymhwysedd Sicrwydd Ansawdd* | | **Datganiad o annibyniaeth o'r achos**<br>*Datganiad cymhwysedd Sicrwydd Ansawdd* | |
| Gwnaf y datganiad canlynol<br><br>Cyn cymryd rhan yn yr adolygiad dysgu yma:-<br><br>• Doeddwn i ddim wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn neu'r teulu, na wedi rhoi cyngor proffesiynol ynghylch yr achos<br>• Doeddwn i ddim wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferwr/ymarferwyr dan sylw<br>• Mae'r cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth, a'r profiad priodol gyda fi ac rwyf wedi cael yr hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad<br>• Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a gafodd eu nodi yn y Cylch Gorchwyl. | | Gwnaf y datganiad canlynol<br><br>Cyn cymryd rhan yn yr adolygiad dysgu yma:-<br><br>• Doeddwn i ddim wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn neu'r teulu, na wedi rhoi cyngor proffesiynol ynghylch yr achos<br>• Doeddwn i ddim wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferwr/ymarferwyr dan sylw<br>• Mae'r cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth, a'r profiad priodol gyda fi ac rwyf wedi cael yr hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad<br>• Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a gafodd eu nodi yn y Cylch Gorchwyl. | |
| **Adolygydd 1** *(Llofnod)* |  | **Adolygydd 2** *(Llofnod)* |  |
| **Enw** *(Llythrennau bras)* | Terri K. Warrilow | **Enw** *(Llythrennau bras)* | Anne Orrells |
| **Dyddiad** | 13/03/2024 | **Dyddiad** | 13/03/2024 |

| | |
|---|---|
| *Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)* | B Heard |
| **Enw** *(Llythrennau bras)* | Bryan Heard |
| **Dyddiad** | 13/03/2024 |

**Atodiad 1**: Cylch Gorchwyl

**Atodiad 2:** Amserlen Gryno

| **Proses yr Adolygiad Ymarfer Oedolion/Plant**<br><br>*I'w gynnwys yma, yn gryno:*<br>• *Y broses a gafodd ei dilyn gan y Bwrdd Diogelu Oedolion a'r gwasanaethau a gafodd eu cynrychioli ar y Panel Adolygu*<br>• *Bod sesiwn ddysgu wedi cael ei chynnal, a'r gwasanaethau a oedd yn bresennol*<br>• *Bod aelodau'r teulu wedi cael eu hysbysu a chafodd eu sylwadau eu gwahodd a'u cynrychioli drwy'r achlysur dysgu. Cafodd adborth ei ddarparu ar eu cyfer nhw.* |
|---|
| |
| ☐ Gwrthododd y teulu gymryd rhan |

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad derbyn yr wybodaeth ………………………..

Dyddiad yr anfonwyd llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Oedolion

…………………………

Dyddiad rhannu ag arolygiaethau perthnasol/Arweinwyr Polisi .........................

| Asiantaethau | Ie | Nage | Rheswm |
|---|---|---|---|
| AGGCC | ☐ | ☐ | |
| Estyn | ☐ | ☐ | |
| AGIC | ☐ | ☐ | |
| Arolygydd Heddlu ei Fawrhydi | ☐ | ☐ | |
| Arolygydd Gwasanaeth Prawf ei Fawrhydi | ☐ | ☐ | |

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

# Panel Adolygu Ymarfer Oedolion
# Oedolyn W – Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg 03/2022
# Cylch gorchwyl

**Manylion Cyfeirnod yr Achos**
Oedolyn W – Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg 03/2022

## Amgylchiadau'n arwain at yr Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig

Ar 27/04/22 derbyniodd Heddlu De Cymru alwad gan nyrs ardal yn gofyn am gymorth yr heddlu. Ar ôl gorfodi mynediad i'r cyfeiriad, a oedd yn ddiogel, aeth swyddogion i mewn a darganfuwyd Oedolyn W wedi marw yn y gwely.

Ar 27/04/22 datgelodd nyrsys ardal a oedd yn bresennol yn y cyfeiriad i swyddogion fod parafeddygon wedi mynychu cyfeiriad Oedolyn W ar 22/04/22 ar ôl i'w mab ffonio oherwydd bod Oedolyn W yn cael anhawster anadlu. Cyrhaeddodd parafeddygon a chadarnhaon nhw bod gan Oedolyn W sepsis ac nad oedd ganddi’r gallu i wneud penderfyniadau ac roedd angen iddi fynd i’r ysbyty. Serch hynny, roedd Oedolyn W wedi datgan nad oedd am fynd i'r ysbyty a dywedodd ei mab wrthyn nhw nad oedd ei fam yn mynd. Roedd y parafeddygon wedi datgan wrth fab Oedolyn W pe na bai ei fam yn mynd yna byddai hi mewn perygl o farw.

Parhaodd wrthod gadael iddi fynd. Felly, gadawson nhw'r tŷ ac arhosodd Oedolyn W gyda’i mab yn yr eiddo. Yna trefnwyd gan y parafeddygon/meddyg teulu y byddai nyrs ardal yn ymweld â'r cyfeiriad.

## Asiantaethau yn ymwneud â'r achos

Roedd yr asiantaethau canlynol yn ymwneud ag Oedolyn W, a bydd y rhain yn llenwi llinell amser a dadansoddiad o'u hymwneud â hi:

- Heddlu De Cymru
- Gwasanaethau i Oedolion
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST)
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl

## Tasgau craidd

Tasgau Craidd y Panel Adolygu Ymarfer Oedolion yma yw:

- Darganfod a oedd penderfyniadau a gweithrediadau'r achos yn cydymffurfio â gweithdrefnau'r gwasanaethau sydd wedi'u henwi, a'r Bwrdd.
- Archwilio sut mae asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd a sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu i'r unigolyn ac i'r teulu.
- Darganfod i ba raddau roedd y penderfyniadau a'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

- Galw am gyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol y teulu a rhoi gwybod iddyn nhw am agweddau allweddol yn y datblygiadau.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau tebyg neu drafodion yn ymwneud â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau sydd eu hangen.
- I ba raddau y dylanwadodd y pandemig Covid ar benderfyniadau, gweithredoedd a deilliannau?

Tasgau penodol y Panel Adolygu:

- Pennu a chomisiynu adolygydd/adolygwyr i weithio gyda'r Panel Adolygu yn unol â'r canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion.
- Cytuno ar amserlen.
- Pennu asiantaethau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol i gyfrannu at yr adolygiad, llunio llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau gweithredu sydd eisoes wedi eu cymryd.
- Llunio llinell amser gyfunedig, dadansoddiad a damcaniaethau cychwynnol.
- Trefnu digwyddiad dysgu i ymarferwyr gyda'r adolygwr/adolygwyr, a fydd yn cynnwys pennu ymarferwyr i fod yn bresennol a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygydd / adolygwyr drefniadau i gysylltu ag aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn adroddiad drafft yr adolygiad ymarfer plant/oedolion, a'i ystyried i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni, bod y rhagdybiaethau gwreiddiol wedi cael sylw priodol, a bod unrhyw beth sydd wedi'i ddysgu o'r broses wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad ac amlinelliad o'r cynllun gweithredu, a gwneud trefniadau ar gyfer ei gyflwyno i Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg i gael ei ystyried a'i gytuno.
- Trefnu adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl ei orffen, a chyn ei gyhoeddi.

## Aelodau'r panel

| ENW | TEITL | SEFYDLIAD |
|---|---|---|
| Bryan Heard | Cadeirydd Annibynnol | Heddlu De Cymru |
| Terri Warrilow | Adolygydd Annibynnol | CBS PYBAO |
| Ann Orrells | Adolygydd Annibynnol | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Christine Rogers | Rheolwr y Garfan | Gofal Cymdeithasol i Oedolion RhCT |

| | | |
|---|---|---|
| Beth Aynsley | Rheolwr Diogelu Pobl Agored i Niwed | Heddlu De Cymru |
| Julie Usher | Nyrs Diogelu'r Cyhoedd | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Dave Harris | Arbenigwr Diogelu | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Stuart Hackwell | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Gofal Sylfaenol |

**Meysydd Canolbwynt Ychwanegol**

**Unrhyw adolygiadau cyfochrog neu waith arall o'r fath i gael eu nodi**

**Amserlen ar gyfer yr Adolygiad**

Cytunwyd y byddai'r panel yn edrych ar amserlen 12 mis cyn marwolaeth Oedolyn W – 28 Ebrill 2021 tan 27 Ebrill 2022.

**Sesiwn Ddysgu**

Bydd y sesiwn ddysgu yn sicrhau bod llais ymarferwyr yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr adolygiad a bod modd i ymarferwyr glywed safbwyntiau'r teulu. Mae disgwyl i ymarferwyr a rheolwyr fod yn bresennol os ydyn nhw'n cael gwahoddiad. Bydd pob ymarferydd yn myfyrio ar yr hyn a ddigwyddodd ac yn nodi'r hyn sydd wedi'i ddysgu er mwyn llywio ymarfer yn y dyfodol.

Mae'r Panel Adolygu yn gyfrifol am gynorthwyo'r adolygwyr i gynnal sesiwn ddysgu effeithiol.

Mae'n bur debyg y bydd y Sesiwn Ddysgu yn cael ei chynnal ar 27 Chwefror 2023.

**Dyddiad Cwblhau**

Y dyddiad cwblhau sydd wedi'i bennu ar gyfer yr Adolygiad yw Mawrth 2024.

**Tasgau'r Bwrdd Diogelu**

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd i gael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu
- Anfon yr adroddiad a'r cynllun gweithredu at asiantaethau perthnasol i gael sylwadau terfynol cyn ei gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru
- Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer y cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr Is-grŵp Adolygiadau, gan gynnwys y modd y bydd gwelliannau'r gwasanaeth a ragwelir yn cael eu pennu, eu monitro a'u hadolygu
- Trefnu i'w gyhoeddi ar wefan y Bwrdd.

- Cytuno pryd a sut i rannu'r adroddiad ag asiantaethau a gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau cyhoeddus ac am ymateb i sylw gan y cyfryngau ynghylch yr adolygiad nes bod y broses wedi'i chwblhau.

## AMSERLEN GRYNO

| Dyddiad | Digwyddiad Arwyddocaol |
|---|---|
| Mehefin 2021 | Atgyfeiriad 1af at y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion gan weinidog lleol oherwydd dirywiad mewn safonau byw, glendid, angen siopa am fwyd. |
| | Ymwelodd Gweithiwr Cymdeithasol – roedd Oedolyn W ac Oedolyn X yn amharod i ymgysylltu. Nodwyd bod Covid wedi lleihau eu hyder i adael y tŷ. |
| Gorffennaf 2021 | Llythyr gan weithiwr cymdeithasol at y Meddyg Teulu yn gofyn am brawf llygaid ar gyfer Oedolyn X a phrawf clyw ar gyfer Oedolyn W. |
| | Cysylltodd Oedolyn X â Gweithiwr Cymdeithasol yn gofyn am help gyda bwyd ond roedd yn amharod i Weithiwr Cymdeithasol alw yn y tŷ |
| | Ymwelodd Gweithiwr Cymdeithasol yn ddiwahoddiad â'r tŷ, dyfalbarhaodd a llwyddodd i gael mynediad. Roedd arwyddion o golli pwysau a hylendid gwael ar Oedolyn W. Yn amlwg doedden nhw ddim yn ymdopi a gofynnodd Oedolyn X am help gyda siopa bwyd, er yr oedd y ddau yn amharod i dderbyn cymorth. Gofynnodd Oedolyn W i'r Gweithiwr Cymdeithasol adael. |
| | Cyfaddefodd Oedolyn X i'r Gweithiwr Cymdeithasol ei fod yn amharod i fynd allan a bod ganddo ddiffyg ymddiriedaeth mewn gweithwyr proffesiynol. Trefnodd y Gweithiwr Cymdeithasol i wraig y gweinidog fynd i siopa gydag Oedolyn X. Pan gyrhaeddodd gwraig y gweinidog, roedd Oedolyn X yn anghwrtais ac yn gwrthod mynd. |
| Awst 2021 | Ymweliad diwahoddiad gan y Gweithiwr Cymdeithasol. Atebodd Oedolyn X y drws ffrynt, er yr oedd yn gyndyn i wneud hynny, ond gwrthododd fynediad. Dosbarthodd y Gweithiwr Cymdeithasol fwyd iddyn nhw er bod Oedolyn X yn gyndyn o dderbyn. Gwelwyd Oedolyn W wrth y drws ac roedd hi'n ymddangos yn iawn. Trefnodd siop fwyd leol i ddosbarthu bwyd yn wythnosol. |
| | Cysylltodd y Gweithiwr Cymdeithasol â'r Meddyg Teulu, gan hysbysu nad oedd Oedolyn X nac Oedolyn W wedi gweld Meddyg Teulu ers 5 mlynedd. Gwelwyd nhw ddiwethaf pan gredwyd bod gan Oedolyn W ganser y coluddyn cam 4. |
| | Gwnaeth y Gweithiwr Cymdeithasol alwadau ffôn ond ni chafodd ateb, galwodd yn ddiwahaoddiad ar 11/8/21 – dim ateb. Galwad Diwahoddiad ar 13/8/21. Atebodd Oedolyn X y drws – roedd yn cwyno am bris bwyd. Roedd Gweithiwr Cymdeithasol wedi rhoi cyngor ar sut i gael cerdyn debyd newydd ond nid oedd Oedolyn X wedi gweithredu ar hyn. Gwrthodwyd mynediad gan Oedolyn X, ni welwyd Oedolyn W. |
| | Galwodd Gweithiwr Cymdeithasol yn ddiwahoddiad ar 19/8/22 – dim ateb. Achos wedi'i uwchgyfeirio i'r Rheolwr a'r Garfan Ddiogelu. |

| | |
|---|---|
| Medi 2021 | Cyfarfu'r Gweithiwr Cymdeithasol â'r Rheolwr, cytunodd i anfon llythyr at y Meddyg Teulu, i godi pryderon / anawsterau gyda'r achos, gofynnwyd am gael cyfarfod â gweithwyr proffesiynol er eu bod yn bryderus mai nhw oedd yr unig asiantaeth oedd yn gysylltiedig bryd hynny. |
| | Galwad di-wahoddiad – dim ateb. Ystyriwyd gofyn am alwad lles yr heddlu ond ni wnaed hyn gan i'r Gweithiwr Cymdeithasol weld Oedolyn W drwy'r ffenestr (dim cyfathrebu). Cadarnhawyd gyda'r siop leol bod archebion bwyd yn cael eu gwneud. |
| Hydref 2021 | Siaradodd y Gweithiwr Cymdeithasol â'r Meddyg Teulu a chytuno, os nad oes ymateb i lythyr yr oedd y Meddyg Teulu wedi'i anfon, y bydden nhw'n gwneud galwad ar y cyd. |
| | Anfonodd y Meddyg Teulu e-bost at yr Heddlu i ofyn am alwad gan nad oedd Oedolyn W nac Oedolyn X yn ateb y drws i'r Meddyg Teulu. Mae cofnodion yr Heddlu o fis Ionawr 2021 yn dangos hanes o Oedolyn W ac Oedolyn X ddim yn ateb y drws. Gan nad oedd gwybodaeth bod bygythiad i fywyd, ni aeth yr Heddlu i'r cyfeiriad. |
| | Dywedodd awdiolegwyr wrth y Gweithiwr Cymdeithasol bod Oedolyn X wedi canslo 2 ymweliad cartref ar gyfer Oedolyn W gan nodi ei bod hi'n sâl. |
| Tachwedd 2021 | Gyrrodd y Gweithiwr Cymdeithasol heibio'r cyfeiriad ddwywaith. Doedd dim ateb wrth y drws, roedd y llenni ar agor yn y prynhawn. Roedd y siop fwyd wedi cadarnhau bod cyflenwadau'n cael eu dosbarthu'n wythnosol a bod gwariant cynyddol. Oedolyn W nac Oedolyn X ddim wedi eu gweld ers 2/8/21. |
| | Caeodd y Gweithiwr Cymdeithasol yr achos oherwydd diffyg ymgysylltu. Roedd hi'n ymddangos bod anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu. |
| Rhagfyr 2021 | Atgyfeiriad newydd wedi'i dderbyn gan y gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd ei bod hi ddim yn ymddangos bod Oedolyn W nac Oedolyn X yn ymdopi. Roedd pryder bod neb wedi gweld Oedolyn W. |
| Ionawr 2022 | Ffoniodd y Nyrs ar gyfer Pobl Fregus Oedolyn W ac Oedolyn X – dim ateb, anfonwyd taflen at y claf er mwyn iddynt gysylltu. |
| | Cafodd yr achos ei ddyrannu i weithiwr cymdeithasol a drefnodd ymweliad ar y cyd â Rheolwr y Garfan ar 7/02/2022. |
| Chwefror 2022 | 7/2/22, 8/2/22 a 14/2/22 Ymweliadau Diwahoddiad – dim ateb. Cysylltodd y Gweithiwr Cymdeithasol â'r atgyfeiriwr, y Meddyg Teulu a'r Nyrs Ardal i gael rhagor o wybodaeth ac â'r siop leol a gadarnhaodd fod cyflenwadau'n cael eu dosbarthu i Oedolyn W ac Oedolyn X. |
| | Cynhaliwyd ymweliad ar y cyd gan y Gweithiwr Cymdeithasol a'r Meddyg Teulu. Cynhaliwyd ymweliad cartref gan nad oedd gweithwyr proffesiynol wedi gweld Oedolyn W ers mis Awst 2021. Llwyddwyd i fynd i fewn i'r eiddo – roedd Oedolyn W yn flêr iawn, gyda dillad a dillad gwely budr, roedd ei hewinedd traed yn hir iawn ac yn fudr, roedd clwyfau i'w choesau oedd yn gwaedu. Doedd dim briwiau pwysau amlwg, ond ni fyddai'n caniatáu i'w phen-ôl gael ei archwilio. Roedd Oedolyn X yn amharod i dderbyn cymorth ac nid oedd Oedolyn W wedi bod allan o'i hystafell ers mis Rhagfyr. Ni nodwyd unrhyw anghenion meddygol gan y Meddyg Teulu. Gofynnodd y Meddyg Teulu i'r Nyrsys Ardal ymweld i wirio'r mannau o'r corff sy'n cael eu heffeithio gan bwysau ac i wneud profion |

| | |
|---|---|
| | gwaed. Roedd Oedolyn W yn bendant nad oedd hi eisiau mynd i'r ysbyty, yn fyddar iawn ac yn gwadu bod ganddi unrhyw boen. |
| | Adroddodd perchnogion y siop leol am eu pryderon i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| | Ymwelodd Gweithiwr Cymdeithasol oherwydd eu pryder ynghylch cyflwr Oedolyn W a gofynnodd i Nyrs Ardal ymweld â'r eiddo. |
| | Roedd pryderon ynghylch hunan-esgeulustod, gwasanaeth cartref symudol i alw unwaith y dydd i geisio cael mynediad i gynorthwyo gyda gofal personol Oedolyn W. |
| | 24/2/22 – Galwad diwahoddiad gan Nyrs Ardal – gwrthododd Oedolyn X fynediad i Oedolyn W. Cytunodd Oedolyn X i ganiatáu mynediad i Nyrsys Ardal ar 28/2/22. |
| | 25/2/22 a 27/2/22 – Galwyd y gwasanaeth symudol yn y cartref, gwrthodwyd mynediad gan Oedolyn X |
| | 28/2/22 Gwrthododd Oedolyn X fynediad i Nyrsys Ardal. Fe wnaeth y Garfan Ddiogelu Oedolion gynghori bod Gweithiwr Cymdeithasol a Gweithiwr Iechyd yn bresennol ac yn gofyn am Alwad Lles yr Heddlu os oes angen. |
| Mawrth 2022 | 1/3/22 Derbyniodd yr Heddlu gais am Wiriad Lles gan y Nyrsys Ardal oherwydd nad oedd Oedolyn W nac Oedolyn X wedi cael eu gweld ers 10 diwrnod. Aeth yr Heddlu i'r eiddo, roedd Oedolyn X yn amharod i ganiatáu i nyrsys ddod i mewn ond perswadiodd yr Heddlu Oedolyn X a chaniataodd fynediad. Dywedodd y nyrsys fod cynllun gofal ar waith i Oedolyn W helpu Oedolyn X gyda gofal ei fam. Ni chyflwynwyd Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd oherwydd roedd asiantaethau eisoes yn gwybod am y sefyllfa. |
| | 8/3/22 – Ceisiodd Nyrs Ardal a Staff Gofal fynd i mewn i'r eiddo. Gwrthodwyd mynediad gan Oedolyn X, ac i Oedolyn W gael ei harchwilio. Roedd Oedolyn W wedi cytuno i dderbyn cymorth yn y gorffennol. Dywedodd y Nyrsys Ardal y byddai gwrthod mynediad yn arwain at dynnu eu henwau oddi ar y rhestr. Mae gan Oedolyn X ddrwgdybiaeth o weithwyr proffesiynol. Gweithiwr Cymdeithasol yn ystyried cysylltu Oedolyn X gyda Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol i feithrin cydberthynas. Byddai Staff Gofal yn trefnu ymweliad ar y cyd yn y dyfodol. |
| | 17/3/22 – Ymweliad ar y cyd rhwng Staff Gofal a Gweithiwr Cymdeithasol. Llwyddon nhw i gael mynediad trwy ddyfalbarhad. Dywedodd Oedolyn X fod Oedolyn W wedi cwympo, archwiliwyd Oedolyn W ond doedd dim anafiadau'n amlwg, ac eithrio bawd wedi'i gleisio. Roedd Oedolyn W yn gallu codi o'r gwely, ond gwrthododd gymorth gyda gofal personol, roedd ei hwyneb yn lân ac roedd ganddi ddillad gwely a dillad isaf glân, ond roedd ei thraed a'i dwylo'n fudr ac yn flêr eu golwg. Cytunwyd i alw eto ymhen pythefnos. |
| | 21/3/22 – Hysbysodd perchnogion y Siop Leol y Gwasanaethau i Oedolion am eu pryderon gan nad oedd Oedolyn X wedi'i weld. Fe'i cynghorwyd i gysylltu â'r Heddlu. |
| Ebrill 2022 | 11/4/22 – Ysgrifennodd Gweithiwr Cymdeithasol lythyr at y Meddyg Teulu gan roedd Oedolyn X yn gwrthod ymgysylltu ac roedd y pecyn gofal wedi dod i ben. Gwelwyd diwethaf 17/3/22. Hysbyswyd y Meddyg Teulu petai unrhyw bryderon pellach byddai angen anfon atgyfeiriad arall at y Gwasanaethau Cymdeithasol. |

| | |
|---|---|
| Ebrill 2022 | 21/4/22 – Codwyd pryderon gan berchnogion y siop leol gan na welwyd Oedolyn W nac Oedolyn X. Cysylltodd y Gweithiwr Cymdeithasol â'r Heddlu yn gofyn am ymweliad lles. Cynghorodd yr Heddlu y Gweithiwr Cymdeithasol i fynychu yn gyntaf. Doedd dim ateb. Dywedodd yr Heddlu y byddan nhw'n ceisio ymweld gyda'r nos ac yn ystod y nos. Hysbyswyd y Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau o'r amgylchiadau. Cysylltodd yr Heddlu ag Oedolyn X dros y ffôn ar ôl 6 munud o ffonio, dywedodd ei fod yn ddiogel ac yn iach gydag Oedolyn W, dywedodd ei fod yn cael trafferth cysgu. Roedd Oedolyn X yn bwriadu galw am fwyd yn y dyfodol ac nid oedd wedi clywed y drws yn gynharach. Dywedodd Oedolyn X nad oedd ei glyw a'i olwg yn wych a'i fod yn cael trafferth gofalu am ei fam oedrannus, Oedolyn W. Gofynnodd yr Heddlu am gymorth i ofalu am ei fam a chyflwynwyd Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd er gwybodaeth/cymorth asiantaethau partner. |
| | 22/4/22 – Ymweliad diwahoddiad gan weithiwr cymdeithasol am 2pm gan nad oedd y fam wedi ei gweld gan yr Heddlu. Gwrthododd Oedolyn X fynediad i ddechrau ond dywedodd ei fod wedi cwympo i lawr y grisiau ar 18/4/22. Dyfalbarhaodd y gweithiwr cymdeithasol a chael mynediad. Roedd Oedolyn W yn ymddangos yn sâl yn gorfforol; roedd hi'n ymwybodol ond yn anymatebol. Ffoniwyd y Meddyg Teulu a gynghorodd i ffonio am ambiwlans. Ffoniodd y Gweithiwr Cymdeithasol 999 am ambiwlans. |
| | 22/4/22 Roedd un aelod o staff ambiwlans ac yna dau aelod o staff ambiwlans ychwanegol yn bresennol, yn argymell bod angen i Oedolyn W gael ei derbyn i'r ysbyty oherwydd haint neu y gallai farw. Gwrthododd Oedolyn X i Oedolyn W gael ei derbyn i'r ysbyty gan ddweud ei fod yn groes i'w dymuniadau. Dywedodd Oedolyn W wedyn nad oedd hi'n dymuno mynd i'r ysbyty. Cafodd yr opsiwn i'r ddau ohonyn nhw fynd i'r ysbyty hefyd ei wrthod. Roedd pawb yn pryderu nad oedd gan Oedolyn W y capasiti i benderfynu drosti ei hunan a dywedodd Gweithiwr Cymdeithasol nad oedd gan y mab atwrneiaeth arhosol ar gyfer y fam. Cysylltodd parafeddygon â'r Meddyg Teulu i drafod opsiynau pe na fyddai Oedolyn W yn cael ei derbyn i'r ysbyty. Dywedodd y Parafeddygon wrth y Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau na chafodd Oedolyn W ei derbyn i'r ysbyty ond y byddai'r Meddyg Teulu yn ceisio ymweld i weld Oedolyn W a rhoi presgripsiwn am gyffuriau gwrth-fiotig. |
| | 23/4/22 – Ymwelodd Nyrs Ardal â'r cyfeiriad ar gais y Meddyg Teulu ar ôl i Oedolyn W wrthod derbyniad i'r ysbyty. Roedd pob drws a ffenestr ar gau a'r llenni ar gau. Doedd dim ateb ar ôl curo ar y drws dro ar ôl tro a cheisio ffonio ffôn symudol Oedolyn X. Rhoddwyd nodyn drwy'r drws. |
| | 24/4/22 – Ymwelodd Nyrs Ardal eto i geisio cael mynediad, doedd dim ateb o gnocio'r drws na'r ffenestri na thrwy wneud galwadau ffôn. |
| | 25/4/22 – Ffoniodd y Nyrsys Ardal y feddygfa dro ar ôl tro. Gadawyd neges gyda Swyddog y Dderbynfa bod y nyrsys wedi methu cael mynediad i Oedolyn W dros y penwythnos. Pa gamau pellach oedd y Meddyg Teulu eu heisiau. |
| | 25/4/22 – Cysylltodd y Gweithiwr Cymdeithasol â'r fferyllfa i gadarnhau bod presgripsiwn wedi'i ddosbarthu i Oedolyn X ar 23/4 wrth y drws ffrynt. Roedd ymweliad i'w wneud ar 26/4/22. |
| | 26/4/22 – Gwnaed ymweliad diwahoddiad gan Weithiwr Cymdeithasol – dim ateb / dim ymateb, treuliodd 5-10 munud yn curo ar ddrysau a ffenestri a ffonio heb unrhyw ymateb. Atgyfeiriad Diogelu Oedolion wedi'i gwblhau. |

| | |
|---|---|
| | 26/4/22 – Y Gwasanaeth Diogelu Oedolion yn e-bostio asiantaethau partner i fynd i gyfarfod strategaeth am 1pm ar 27/4/22. |
| | 27/4/22 – Gwnaed ymweliad diwahoddiad gan Nyrs Ardal – dim ymateb yn y cyfeiriad. |
| | 27/4/22 – Yr Heddlu'n bresennol yn y cyfarfod Strategaeth, oherwydd pryderon uniongyrchol ffoniodd yr Heddlu yr Ystafell Reoli a gofyn am ymateb ar unwaith i'r cyfeiriad. |
| | 27/4/22 Torrodd yr Heddlu i mewn i'r eiddo. Canfuwyd Oedolyn W wedi marw, roedd Oedolyn X wedi bod yn y gwely am 2 ddiwrnod oherwydd poen cefn, dywedodd ei fod wedi ceisio rhoi gwrthfiotigau i Oedolion W, a'i bod wedi gwrthod. Gwelodd hi ddiwethaf yn fyw ychydig ddyddiau ynghynt pan roedd wedi cymryd dŵr iddi. Galwodd ambiwlans am Oedolyn X ond gwrthododd dderbyniad i'r ysbyty. Roedd Nyrsys Ardal eisiau asesiad o'i alluedd meddyliol i wneud y penderfyniad yma. Aros am ambiwlans. |